SAUNDERS, DAVID (1831 - 1892), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, pregethwr huawdl

Enw: David Saunders
Dyddiad geni: 1831
Dyddiad marw: 1892
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, pregethwr huawdl
Maes gweithgaredd: Crefydd; Addysg
Awdur: James Ednyfed Rhys

Ganwyd 20 Mai 1831 yng Nghastellnewydd Emlyn. Aeth i Goleg Trefeca yn 1851, ac oddi yno i Brifysgol Glasgow. Dychwelodd adref yn fuan oblegid ei oddiweddyd gan haint. Ymsefydlodd fel gweinidog ym Mhenclawdd, ond ni bu yno'n hir cyn symud i Fethania, Aberdâr, yn 1857. Tra yno bu'n olygydd *Y Gwladgarwr* am gyfnod. Yn 1862 symudodd i Lerpwl, a than ei arweiniad ef y codwyd adeiladau yr eglwys yn Princes Road; ond yn 1868 symudodd i Abercarn, sir Fynwy. Trodd ei wyneb i'r Triniti, Abertawe, yn 1873, ac yno y gorffennodd ei rawd. Bu farw 14 Hydref 1892. Etholwyd ef yn llywydd y gymanfa gyffredinol yn 1877, ac yn llywydd cymdeithasfa'r De yn 1880. Yr oedd yn un o brif hyrwyddwyr y gynhadledd yn Aberystwyth (22 Medi 1880) i drafod pwnc addysg ganolraddol yng Nghymru. Yn ei gyfundeb ef ei hunan, ymdrechodd yn galed (ond yn ofer) i gael un coleg diwinyddol i'r holl enwad; cymerth ran yng ngwasanaeth sefydlu Coleg Diwinyddol y Bala yn 1891. Priododd ferch i John Howell, Pencoed (Morgannwg), bardd a blaenor - tad y deon David Howell.

Awdur

Y Parchedig James Ednyfed Rhys, (1876 - 1960)

Ffynonellau

Y Geninen, Mawrth 1893, 35; 1907, 35

Cymru (O.M.E.), iii, 249 (gan W. James)

W. James (gol.) a John Morgan Jones (gol.), *Cofiant a phregethau y Parchedig D. Saunders, D.D.* (Abertawe 1894)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 103527390

Wikidata: Q20804682

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu